




tud 3	tud 4	tud 11	tud 12
Pobl a Phethe	CFfl	Pwsî Meri Mew	Pêl-droed

Dympio sbwriel yn anghyfreithlon



Daeth i'n sylw fod achos diweddar o ddympio sbwriel wedi bod ar ddarn o'r hen ffordd fawr gyferbyn â'r fynedfa i'r Fagwyr yn Nhal-y-bont. Mae darn o'r hen ffordd yn arwain at adwy i fynd i gae sy'n perthyn i fferm Maesnewydd yn amlwg yn lle cyfleus i rywrai diegwyddor ddadlwytho eu sbwriel yn lle mynd ag ef i'r domen yng Nglanrafon fel y disgwylir i bawb ei wneud. Fel y gwelir oddi wrth y llun, taflwyd darn o ffens gardd, tameidiau o goed, hen fin plastig gwyrdd, bagiau yn llawn plastr, a thameidiau o deils ar y darn tir. Mae'n amlwg fod gan bwy bynnag sy'n gyfrifol gerbyd digon o faint i allu cario'r pentwr hwn o sbwriel, a bwrw mai un llwyth sydd yma.

Mae tipyn o sôn wedi bod ar y newyddion yn ddiweddar am achosion o dipio anghyfreithlon, yn enwedig am fod y cynghorau sir yn codi tâl am waredu sbwriel o'r fath. Mae pobl Machynlleth, er enghraifft, yn cwyno am fod Cyngor Sir Powys yn bwriadu cau tomen y dref, gweithred a fydd yn golygu y bydd yn rhaid i bobl y cylch gludo sbwriel gardd i'r Drennewydd. Y perygl yw y bydd y math yma o dipio anghyfreithlon yn dod yn fwyfwy cyffredin.

Dygwyd y drosedd hon i sylw Cyngor Cymuned Ceulanamaesmawr, a dywedodd y Clerc y bydd yn cyfeirio'r mater at yr heddlu ac yn rhoi gwybod i'r Cyngor Sir fel y gellir symud y sbwriel oddi yno. Gofynnir i drigolion yr ardal fod ar eu gwyliadwriaeth. Os bydd unrhyw un yn gweld rhywrai yn dadlwytho sbwriel yn anghyfreithlon, yna dylai gofnodi rhif y cerdyd a rhoi gwybod i'r heddlu.

Eglwys Dewi Sant i gau



Cyhoeddodd Cyngor Eglwysig y Plwyf y bydd Eglwys Dewi Sant yn Nhal-y-bont yn cau ddiwedd mis Ionawr 2017. Yr oedd pryderon wedi bod ers tro y byddai drysau'r eglwys yn gorfod cau oni bai fod mwy o bobl yn mynychu'r gwasanaethau. Cynhaliwyd cyfarfod agored i drigolion y pentref yn ystod Mehefin y llynedd lle'r oedd y rheithor, y Parch Peter Jones, yn gwahodd syniadau sut i chwyddo'r gynulleidfa a phoblogeiddio'r oedfaon. Ymhlith y syniadau a drafodwyd ar y pryd yr oedd sefydlu Ysgol Sul a chynnal ambell wasanaeth yng nghanol yr wythnos. Yn anffodus, ni lwyddodd y syniadau newydd hyn i ddenu digon o gefnogaeth ac atal cau'r drws ar addoli yn yr eglwys ar ôl 107 o flynyddoedd.

Gan swyddogion Esgobaeth Tyddewi y bydd y gair olaf ar dynged yr adeilad ei hun, ond y tebyg yw, wedi i'r broses o ddirwyn yr achos i ben gael ei chwblhau, y caiff ei werthu.

Dywedodd y Parch Peter Jones wrth ohebydd *Papur Pawb*: 'Mae hwn yn benderfyniad trist ond anorfod. Nid dyma ddiwedd y daith yn hanes ein gweinidogaeth yn Nhal-y-bont o bell ffordd, oherwydd bydd ein haddolwyr yn gallu ymuno â'r gwasanaethau yn Eglwys Llandre. Mae'n bosibl iawn y byddwn ni yn y dyfodol yn gweinidogaethu mewn ffordd wahanol yn Nhal-y-bont. Mae'n bosiblirwydd y gallwn fod yn cynnal gwasanaethau yn y Neuadd Goffa o bryd i'w gilydd, er enghraifft.'

Bydd y Parch Peter Jones yn parhau i arwain Gwasanaeth Sul y Cofio yn y Neuadd Goffa eleni ac yn y blynyddoedd i ddod, ac fe gynhelir y gwasanaeth carolau arferol yng ngolau'r gannwyll yn yr eglwys ei hun ym mis Rhagfyr. Cynhelir y gwasanaeth olaf yn yr eglwys ar Sul olaf Ionawr.

Papur Pawb

Golygydd Cyffredinol: Gwyn Jenkins (01970) 832560
Maesgwyn, Tal-y-bont, Ceredigion
golygydd@papurpawb.com
Cysyllter â golygyddion y mis

Tynnu lluniau:

GOHEBYDDION LLEOL
Tal-y-bont: Myfanwy James, Bryn Eglur, Tal-y-bont 832592
Aileen Williams, Maesmeillion, Tal-y-bont 832438
Maes-y-deri: Eirlys Jones, 91 Maes-y-deri, Tal-y-bont 832483
Parsel Henllys: Dilys Morgan, Alltgoch, Tal-y-bont 832498
Bont-goch: Richard Huws, Pantgwyn, Bont-goch 832566
Tre Taliesin: Siân Saunders, Is-y-coed, Tre Taliesin 832230
Tre'r-ddôl: Janet Evans, Cefngweiriog, Tre'r-ddôl (01654) 781260
Michelle James, 4 Maes Clettwr, Tre'r-ddôl 832028
Lona Mason, Maes y Coed, Ffwrnais (01654) 781324
Ceri Morgan

Eglwysfach/Ffwrnais:
Rhwydweithiau
cymdeithasol:

CYMDEITHAS PAPUR PAWB

Cadeirydd: Gerwyn Jones, Dôl Pistyll, Tal-y-bont 832203
Is-gadeirydd: Catrin MS Davies, Simne Wen, Tal-y-bont 832697
Ysgrifennydd: Rhian Evans, Glanrafon, Tal-y-bont 832344
Trysorydd: Rebecca Williams, Mur Mawr, Tal-y-bont 832093
Tanysgiriadau: Bledwyn Huws, Henllan, Tal-y-bont 832448
Hysbysebion: Trish Huws, Llwyn-Onn, Tal-y-bont 832076
Plygu'r Papur: Gwenllian Parry-Jones; Beti Jenkins
Dosbarthwyr: Lynn Ebenezer; Gwenllian Parry-Jones; Carys Briddon

Cyhoeddwyd gan Gymdeithas Papur Pawb. Ariennir yn rhannol gan Lywodraeth Cymru.

Llythyrau

Cystadleuaeth Arbennig i Ddathlu Pen-blwydd Eisteddfod Calan Mai Morlan Aberystwyth a'r Cylch yn 5 oed.

Annwyl gyfaill,
Mae pwyllgor Eisteddfod
Calan Mai yn gwahodd pobl
yr ardal (mae'r dalgylch fel un
Ysgol Penweddig) i ddylunio
llun i'w ddefnyddio ar glawr
rhaglen eisteddfod 2017. Efallai
y bydd ystyried y canlynol
yn help i sbarduno syniad:
dathlu 5 oed; Aberystwyth;
canu/dawnsio/llefaru/chwarae
offerynnau. Wrth gwrs, mae
llu o bosibiliadau eraill!
Cynigir gwobr o £20 ac mae'r
gostadleuaeth yn agored i bob
oed.

Lluniau i law erbyn 1
Rhagfyr fan bellaf – un ai
drwy'r e-bost: aberystwyth@
steddfota.org neu trwy law
Dana Edwards, Cilmeri, Ffordd
Ddewi, Aberystwyth SY23
1EU.

Gan edrych ymlaen at eich
cwmni ar noson yr eisteddfod,
3ydd o Fai 2017.

Yn gywir,
Dana Edwards
Cydlynnydd yr Eisteddfod

Derbyn Aelodau Newydd
Mae'n fwiad gan Eglwys
Bethel Tal-y-bont gynnal
gwasanaeth fore Sul 11 Rhagfyr
i dderbyn aelodau newydd.

Os gwyddoch am unrhyw un, yn
enwedig ieuencid yr Eglwys,
sydd yn dymuno ymaelodi,
rhowch yr enwau a'r manylion
cyswllt i'r Ysgrifennydd, Phil
Davies, os gwelwch yn dda, cyn
diwedd mis Tachwedd.
Llawer o ddiolch,

D. Philip Davies
Gwynionydd
4 Maes-y-felin
Tal-y-bont
SY24 5DZ
Tel: 01970 832384
gwynionydd@btinternet.com

Cymdeithas Sioe Tal-y-bont Cinio Blynnyddol

Yn y Blac
Nos Sadwrn 3 Rhagfyr
7.00 i 7.30 o'r gloch yr hwyr
Enwau i Janet Jones (832 293)
erbyn 26 Tachwedd

Ffrindiau Cartref Tregerddan Cyfarfod Blynnyddol

yn y cartref
Nos Fercher, 23 Tachwedd
am 7.00 o'r gloch
Croeso cynnes i bawb

Gwasanaeth Scanio ARTHUR MORGAN


Pencefen, Y Ferwig, Aberteifi, Ceredigion
01239 615085 – 07721 786292

Dyddiadur

TACHWEDD

- 13 **Bethel 2** Gweinidog (Sul y
Cofio)
11.15 Ysgol Sul
Rehoboth 2 Bugail (C)
Neuadd Goffa Tal-y-bont
10.45 Gwasanaeth Sul y Cofio
- 15 **Cyngerdd** Pigion Eisteddfod
CFfi 7.30 Neuadd Goffa
- 16 **Proff yn y Pyb 8** Llew Gwyn
- 17 **Sefydliad y Merched Tal-y-**
bont Dathlu'r Canfed Pen-
blwydd
CIC 6 Neuadd Rhydpennau
Eglwys Dewi Sant 7
Gwasanaeth Hwyr
Wildfowler, Tre'r-ddôl Bingo
- 18 **Sesiwn Nos Wener** Gwilym
Bowen Rhys, Llew Gwyn
- 20 **Bethel 10** Lleol
Rehoboth 10 Gordon
Macdonald
Eglwys Sant Pedr, Elerch
2.30 Hwyr Weddi

- 21 **Merched y Wawr Tal-y-bont**
a'r Cylch 'Ar flaen fy
mysedd' yng nghwmni cangen
Llandre
- 23 **Cyfrafol Blynnyddol**
Ffrindiau Cartref
Tregerddan 7 o'r gloch
- 26 **Ffair Nadolig 2** Neuadd Goffa
Tal-y-bont
- 27 **Bethel 2** Gweinidog (C)
11.15 Ysgol Sul
Rehoboth 5 Bugail
Eglwys Dewi Sant 11
Gwasanaeth pob oedran
- 29 **Cymdeithas Treftadaeth**
Llangynfelyn 7.30 Llanfach
'Ystrad Fflur' (Yr Athro David
Austin)

Cymdeithas Sioe Tal-y-bont

Gyrfa Chwist Dofednod
gyda Raffl Fawr a gwobrau
amrywiol
Neuadd Goffa
Nos Fercher 14 Rhagfyr
Am 8.00 o'r gloch
Croeso cynnes i bawb

- 30 **Merched y Wawr Tal-y-**
bont a'r Cylch Ymuno â
changen Mynach yn yr Hafod
Arms

RHAGFYR

- 1 **CIC 6** Neuadd Rhydpennau
Wildfowler, Tre'r-ddôl Bingo
- 3 **Cinio Blynnyddol Sioe Tal-y-**
bont, Y Llew Du, 7-7.30
- 4 **Bethel 2** Uno yn Nasareth
11.15 Ysgol Sul
Nasareth 2 Bugail (C)
Rehoboth 5 Bugail (C)
Eglwys Sant Pedr, Elerch
2.30 Gwasanaeth Carolau
- 6 **Sefydliad y Merched Taliesin**
Arddangosiad o Grefft Siwgr
- 11 **Bethel 11.15** Ysgol Sul
- 12 **Cyngerdd Nadolig Cylch**
Meithrin Tal-y-bont Neuadd
Goffa Tal-y-bont
- 14 **Gyrfa Chwist Dofednod, 8**
Neuadd Goffa Tal-y-bont

Os am gynnwys manylion am
weithgareddau eich mudiad neu
eich sefydliad yn nyddiadur y mis,
dylech ddanfôn y manylion llawn
at Carys Briddon, [carysbriddon@](mailto:carysbriddon@btinternet.com)
btinternet.com (01970 832478)
o leiaf ddeng niwrnod cyn y rhifyn
nesaf o Papur Pawb.

NEUADD GOFFA TAL-Y-BONT FFAIR NADOLIG

Sadwrn 26 Tachwedd
2:00 o'r gloch
Mynediad £2.00 i gynnwys
lluniaueth
(Plant ysgol am ddim)
Stondinau gan Fudiadau a
Busnesau Lleol,
Rafflau a chystadlaethau
amrywiol.
Dewch i gefnogi a mwynhau
hwyl yr ŵyl.

GOLYGYDDION

Golygyddion y rhifyn hwn
oedd Delyth a Bledwyn,
gydag Iolo yn dylunio.
Golygyddion mis Rhagfyr
fydd Phil a Megan Mai
(gwynionydd@btinternet.com). Y dyddiad cau ar gyfer
derbyn newyddion fydd dydd
Gwener 2 Rhagfyr, a bydd y
papur ar werth ar 9 Rhagfyr.



Ariennir gan
Lywodraeth Cymru

Etholiadau'r Cyngor Sir – Ellen yn sefyll eto

Mewn cyfarfod o gangen Plaid Cymru ardal Tal-y-bont, ar Nos Fercher 5ed Hydref, penderfynodd aelodau'r gangen yn unfrydol gefnogi enwebiad Ellen ap Gwynn fel ymgeisydd Plaid Cymru ar gyfer Ward Ceulanamaesmawr yn etholiad y Cyngor Sir fis Mai 2017.

Cydymdeimlad

Tristwch o'r mwyaf yw cofnodi marwolaeth ddisymwth John Leeding, Glannant, Taliesin ar 24 Medi. Cydymdeimlwn yn ddwys â Mai, Rhun, Lowri, Maldwyn a gweddi y teulu. Colled i'r fro gyfan.

Pen-blwyddi priodas

Llongyfarchiadau i Mair a David Nutting, Tŷ Hen Henllys, Tal-y-bont ar ddathlu eu priodas berl (30 mlynedd) ar 4ydd o Hydref, ac i Delyth a Gwenallt Llwyd Ifan, Llysallaw, Tal-y-bont a Spencer a Natasha Davies, Maesyderi, Tal-y-bont ar ddathlu eu pen-blwydd priodas arian (25 mlynedd) hefyd yn ystod mis Hydref. Dymuniadau gorau hefyd i Dewi a Tegwen Evans, Penygraig, Bont-goch a fydd yn dathlu eu priodas aur (50 mlynedd) ar 26 Tachwedd.

Gartref o'r ysbyty

Da clywed fod Gerald Roberts, Maesyderi, Tal-y-bont, yn gwella ar ôl cyfnod yn Ysbyty Treforys, Abertawe, a bod Alun Jones, Llwyn-glas, yntau hefyd bellach gartref o Dreforys.

Cydymdeimlo

Roedd yn ddrwg gennym glywed fod Aileen Williams, Maesmeillion, Tal-y-bont, wedi colli nai yn ddiweddar, a bod David James, Brynceulan, Tal-y-bont wedi colli ei chwaer yng nghyfraith, sef Rita James o Benparcau.

Ennill gwobrau yn y Wladfa

Llongyfarchiadau i Carys Briddon, Tre'r-ddôl, am ennill dwy wobwr yn Eisteddfod Chubut yn Nhrelew, y naill am gerdd a'r llall am draethawd. Treuliodd Carys a'i gŵr, Graham, bythefnos o ymlaen ym Mhatagonia, a chawsant amser wrth eu bodd yno.

Pobl a Phethe



Priodas

Llongyfarchiadau i Dr Robert Jones, mab Barrie a Heather Jones, Llysterfyn, Tal-y-bont, ar ei briodas â Bronagh Scullion o Swydd Derry, Gogledd Iwerddon. Treuliodd y mis mêl yng Nghuba a'r Bahamas. Mae'r ddau ar hyn o bryd yn dilyn eu gyrfaedd yn Lerpwl a'r cyffiniau.



Rhedeg ym Marathon Caer

Dyma lun o Holly Aubrey, Gleanings, Tal-y-bont, a Ceris Williams, Pensarn, Tal-y-bont ar ôl cwblhau marathon Caer yn ddiweddar. Hon oedd marathon gyntaf y ddwy ohonynt, a llongyfarchiadau iddynt am ei chwblhau mewn 4 awr a 15 munud. Hefyd yn y llun mae Lindsay Pursall o Benrhyn-coch. Mae'r tair yn aelodau o Glwb Athletau Aberystwyth.

Dathlu'r Deunaw

Llongyfarchiadau i Geraint Howard, Brynfa, Tal-y-bont, ar ddathlu ei ben-blwydd yn ddeunaw oed.

Ymweliad Siôn Blewyn Coch

Cafodd teulu Henllan, Tal-y-bont, golled yng nghanol Hydref pan laddodd llwynog y ddwy iâr a oedd ganddynt. Anghofiodd cau'r cwt ieir un noson ac erbyn y bore roedd y ddwy iâr wedi mynd ac ôl plu ar lawr ym mhobman. Roedd hon yn dipyn o golled am fod y ddwy iâr wedi bod yn dodwy'n solet drwy'r haf. Y wers o hyn ymlaen mae'n debyg yw cofio cau cwt yr ieir!

Poteli sebon ar goll

Adroddwyd yng nghyfarfod Pwyllgor y Neuadd Goffa fod poteli sebon yn diflannu o doiledau'r Neuadd. Os oes gan unrhyw un wybodaeth am ddirgelwch y poteli sebon coll, hoffai aelodau'r pwyllgor gael gwybod. Clywsom sôn am ddwylo blewog, ond mae'n debyg y bydd gan leidr y sebon ddwylo glân!

Noson arwyr lleol

Cynhaliwyd noson i wobrwyo arwyr lleol gan Radio Ceredigion yng Ngwesty'r Marine, Aberystwyth ddechrau mis Medi. Tasg anodd oedd yn wynebu'r beirniaid wrth iddynt ddewis enillydd ym mhob adran, a hwythau wedi derbyn nifer o enwebiadau. Rydym yn falch o gyhoeddi mai enillydd yr adran ar gyfer Gwarchodydd plant y Flwyddyn oedd Mrs Ann Fryd, Tynffynnon. Llongyfarchiadau mawr iddi.

Ar y radio

Bydd rhai o ddarlennwyr hŷn *Papur Pawb* yn cofio J M Davies, tad Eiriona Metcalfe, a oedd yn cadw siop yn Nhaliesin am flynyddoedd lawer. Clywyd ei lais yn sôn am ei gyfnod yn y fyddin yn ystod y Rhyfel Mawr ar y rhaglen *Cymry 1914-18* a ddarlledwyd ar ddydd Llun 7 Tachwedd. Dyma oedd y rhaglen gyntaf yn y gyfres am y flwyddyn 1917 a ddarlledir yn ystod mis Tachwedd.

CFfl Tal-y-bont a'r Cylch



Dewi a Steffan

Llun: Tim Jones

Wel am ddechrau da i'r flwyddyn i Glwb Ffermwyr Ifanc Tal-y-bont, gyda dwy gystadleuaeth fawr mewn deufis! Dechreuwyd y flwyddyn trwy groesawu llwyth o aelodau newydd a gwelwyd 39 o aelodau yn bresennol ar un nos Fawrth. Braf iawn yw gweld cymaint o aelodau brwd newydd yn ymuno â ni yn y clwb.

Cystadleuaeth gyntaf y flwyddyn oedd y Diwrnod Maes ac yn lwcus i ni doedd dim rhaid teithio'n bell eleni – Fferm Gogerddan. Bu'r clwb yn cystadlu mewn 5 cystadleuaeth i gyd ond fe wnaethon lwyddo i ddiwedd yn y pumed safle! Cawson 2 wob: Glesni Morgan a Harri Mason yn ennill yr ail wob yn y daith natur, a Trystan Davies



Cadi, Beca a Cari

Llun: Tim Jones

yn hen law ar y trimio oen, hefyd yn ennill yr ail wob. Bu Bedwyr ac Ynyr Siencyn a William Jones yn cystadlu yng nghystadleuaeth y barnu stoc o dan 14, Teleri Morgan a Seren Pugh yn addurno coeden Nadolig, a Siôn Evans, Neuaddfawr yn cystadlu gyda'r tractor a loader. Diwrnod da iawn i'r clwb.

Heb gael amser i anadlu, symudon ymlaen at baratodau Eisteddfod y Ffermwyr Ifanc ac mae'n rhaid cymeradwyo'r aelodau (newydd a hyn) am eu brwdfrydedd i gystadlu eleni eto. Cawsom flwyddyn lwyddiannus iawn wrth orffen yn yr wythfed safle - yr uchaf yn hanes y clwb (ry'n ni'n meddwl). Fe wnaethom gystadlu mewn 11 cystadleuaeth llwyfan, gan gynnwys Ymgom (Glain Davies, Sara Down a Llywelyn Bowen) ac wrth gwrs y Meimio i Gerddoriaeth ac amryw o gystadlaethau gwaith cartref. Dyma ganlyniadau'r clwb:

Unawd Alaw Werin 26 neu iau
1af: Beca Williams, Tal-y-bont ac yn cynrychioli Ceredigion yn Eisteddfod CFfl Cymru yn

Unawd 13 neu iau
1af: Cadi Williams, Tal-y-bont

Unawd 16 neu iau
1af: Beca Williams, Tal-y-bont ac yn cynrychioli Ceredigion yn Eisteddfod CFfl Cymru yn Abertawe

Unawd Offerynnol 26 neu iau
3ydd: Elain Tanat Morgan, Tal-y-bont
3ydd: Gronw Downes, Tal-y-bont

Ensemble Lleisiol 26 neu iau
1af: Tal-y-bont (Beca, Cadi a Cari) ac yn cynrychioli Ceredigion yn Eisteddfod CFfl Cymru yn Abertawe

Unawd Sioe Gerdd neu Ffilm 26 neu iau
3ydd: Beca Williams, Tal-y-bont

Deuawd neu Driawd Doniol
2il: Steffan a Dewi, Tal-y-bont

Cywaith Clwb
3ydd: Tal-y-bont

Dylunio 'Geo Filter' Snapchat – 26 neu iau
3ydd: Steffan Nutting, Tal-y-bont

Rydym yn falch iawn fel clwb ar ddechrau'r flwyddyn a hoffem ddiolch i'r rhai sydd wedi ein helpu ni hyd yn hyn. Rydym yn edrych ymlaen i ymlacio ychydig a chael tipyn o hwyl tan bydd hi'n amser yr Hanner Awr o Adloniant. Yn y cyfamser rydym yn bwriadu cynnal **Cyngerdd Pigion yr Eisteddfod, ar Nos Fawrth 15fed o Dachwedd am 7:30.**

Cadeirydd: Steffan Rhys Nutting - 07949377877
Ysgrifennydd: Dafydd 'Steddfa' Thomas - 07792393598
Trysorydd: Glesni Morgan - 07507928591

CYLCH MEITHRIN TAL-Y-BONT

Cyngerdd Nadolig a Noson Goffi

£3 - oedolion
Plant am ddim

Yn gynnwys paned a mins pei

Stondin Gacennau
Cynnyrch Cartref
Crefftiau
Raffl
Tombola

Neuadd Goffa Tal-y-bont
12/12/2016
6.30 yh
Croeso cynnes i bawb

Garej Davmor

- Petrol a Diesel
- Gwasanaethu, trwsio, MOT a theiars
- Adnewyddu blychau gêr a gosod cydyddion
- Llogi fan a bws mini, gwerthiant ceir
- Siop Gyfleustra drwyddedig

Y garej gwasanaeth llawn yn Nhal-y-bont

01970 832278 www.davmorgarage.co.uk

Cantata Memoria a Chofio Aber-fan

I gofio hanner canmlwyddiant trychineb Aber-fan, pan lithrodd tunelli o wastraff glo i lawr llethr nes claddu adeiladau ysgol Pant-glas a nifer o dai yn y pentref gan ladd 116 o blant a 28 o oedolion, comisiynodd S4C gyfansoddiad newydd gan y cerddor Karl Jenkins. Perfformiwyd y gwaith o'r enw *Cantata Memoria* yng Nghanolfan y Mileniwm



yng Nghaerdydd ar ddiwedd wythnos gyntaf mis Hydref. Y prifardd Mererid Hopwood a luniodd y geiriau i gyd-fynd â'r gerddoriaeth, ac fe gafwyd perfformiad pwerus iawn.

Yr oedd y sêr rhyngwladol Catrin Finch, Elin Manahan Thomas a Bryn Terfel yn cymryd rhan, yn ogystal â nifer o gorau, yn cynnwys côr Cywair dan arweiniad Islwyn Evans. Un o aelodau'r côr y gellid ei weld ar y sgrin deledu pan ddarlledwyd y perfformiad ar S4C ar y noson wedi'r perfformiad byw oedd Geraint Pugh gynt o Ddôl Pistyll. Buom yn holi Geraint sut brofiad oedd bod yn rhan o'r perfformiad:

Gol: Sut brofiad oedd canu yn y cyngerdd?

Geraint: Roedd hi'n fraint cael canu ym mherfformiad cyntaf *Cantata Memoria*. Fel aelod o gôr Cywair, roeddwn yn un o ryw 150 o gantorion yn y cyngerdd yng Nghanolfan y Mileniwm yng Nghaerdydd.



Fe dderbyniodd y côr wahoddiad i fod yn rhan o'r cynhyrchiad rhyw flwyddyn yn ôl, Geraint Pugh gynt o Ddôl Pistyll a derbyn copi o'r darn comisiwn ychydig fisoedd wedi hynny yn ystod y gwanwyn eleni. Serch hynny, dim ond yn yr ymarferion ar ddiwrnod y cyngerdd ychydig wythnosau yn ôl y cefais glywed y darn yn ei gyfanrwydd yn fyw wrth ganu gyda'r unigolion a'r gerddorfa. Hyd yn oed wrth recordio'r traciau ar gyfer y cryno ddisg yn stiwdio Acapela, Caerdydd, ddiwedd mis Ebrill, roedd y gwahanol berfformwyr yn recordio ar ddiwrnodau ar wahân. Rhaid felly oedd aros tan imi dderbyn copi cynnar o'r cryno ddisg ychydig fisoedd yn ddiweddarach er mwyn gwerthfawrogi'r darn.

Gol: A chwithau'n dad ifanc i ddau o blant, rwy'n siŵr fod y profiad o ganu'r darnau wedi bod yn un digon teimladwy.

Geraint: Er nad oeddwn wedi fy ngeni adeg trychineb Aber-fan, roedd perfformio'r darn yn brofiad emosiynol iawn imi fel tad i ddau o blant yr un oedran â'r rhai a gollwyd yn y trychineb. Mae symudiadau cychwynnol *Cantata Memoria* yn cyfleu'r trychineb ei hun a'r galaru fu wedi hynny. Yn wir, cenir enwau'r plant a'r oedolion a gollwyd yn y trychineb yn ystod y trydydd symudiad – ac roedd y lluniau archif o'r difrod a'r angladdau a ddangoswyd tu cefn i'r côr yn y cyngerdd yn ychwanegu at emosiwn y darn.

Gol: Beth yw'r peth mwyaf cofiadwy i chi am y perfformiad?

Geraint: Y darn mwyaf cofiadwy i mi oedd y symudiad olaf, y *Lux Aeterna*, oedd yn adlewyrchu'r gobaith i'r dyfodol – yn enwedig gan fod nifer oedd wedi goroesi'r trychineb yn bresennol yng Nghanolfan y Mileniwm y noson honno. Iddyn nhw, fe newidiodd y byd yn dilyn y trychineb, ond fel pob cymdeithas gref roedd modd iddynt gefnogi ei gilydd yn eu galar ac, mewn amser, edrych tua'r dyfodol.

Ymwelwyr o Siapan



Yn y rhes flaen ar y dde yn y llun gwelir Efa Gregory o Aberystwyth a Siôn Nelves yng nghwmni'r ymwelwyr o Yosano, ac yn y rhes ôl Phil Davies a Gwenallt Llwyd Ifan a oedd yn rhan o'r cwmni a fu'n estyn croeso iddynt i Aberystwyth a'r ardal.

Bu criw o bobl ifanc o Yosano, Siapan yn ymweld ag ardal Aberystwyth fel rhan o'r bererindod arferol gan Gymdeithas Cyfeillion Aberystwyth-Yosano. Bu Siôn Nelves a Betsan Siencyn yn edrych ar ôl dau ohonyn nhw yn ystod wythnos hanner tymor, sef Taiga a Mai. Nid yw Betsan yn y llun gan ei bod hi yn Efrog Newydd gyda thrip Ysgol Penweddig pan ymwelodd y plant â bedd Frank Evans ym mynwent Tal-y-bont. Bu Mr Evans yn garcharor rhyfel yn Siapan yn ystod yr Ail Ryfel Byd, ac ef a sefydlodd Gymdeithas y Cyfeillion er mwyn hyrwyddo dealltwriaeth, cyfeillgarwch a heddych rhwng y ddwy wlad. Bu'r ymwelwyr hefyd mewn gwasanaeth yng Nghapel Bethel.

Afiaith
Gwasanaeth Cyfieithu

Profiadol • Proffesiynol
Prydlon • Personol

Martin Davis
Is-y-coed, Tre Talleir, MACHYNLLETH
Powys SY20 8JG Cymru
Ffôn/Ffacs +44 (0)1970 832230 afiaith@aol.com

ANRHEG NADOLIG GWYCH!!

Oes gennych chi hen fideos VHS yr hofech ei drosglwyddo i DVD?

Cysylltwch â STIWDIO BING:
01650 511600
post@stuidiobing.cymru



Salon Leri
Pob agwedd o drin gwallt gan Richard

10am-7pm
Llun-Gwener
(01970) 832 674

Gwasanaeth Cynnal a Chadw Gerddi

MYNACH

Garden Maintenance

Torri Porfa, Sietynau, Tirunio a Garddio
Gwasanaeth cyfeillgar a phrisiau rhesymol

Ffoniwch Meirion:
07792457816 / 01974 261758

e-bost:
mynachhandyman@yahoo.com

Y LLEW GWYN TAL-Y-BONT

Mae Gareth, Bev a Carl yn edrych ymlaen i'ch croesawu i'r Gwyn.

Ar agor bob dydd

Bwyd ar gael 7 diwrnod yr wythnos 12.00 tan 9.00

Nos Fawrth: Pei a Peint 6.00 tan 9.00 £8.50

Nos Iau: Cyri a Peint 6.00 tan 9.00 £8.50


Cinio Dydd Sul 12.00 tan 3.00

(Un cwrs: £7.95 Dau gwrs £9.95)

Ystafelloedd ar gael

01970 832245
garethwhitelion@outlook.com

‘Coda Ni’



Ffred Ffrancis a Fioled Jones o fudiad ‘Coda Ni’

Ar fore Sul yng nghanol Hydref daeth Ffred Ffrancis a Fioled Jones i gynnal gwasanaeth teulu ym Methel Tal-y-bont ar ran mudiad o'r enw ‘Coda Ni’ a sefydlwyd gan bobl yn ardal Pencader. Mudiad yw hwn sy'n cynorthwyo pobl mewn gwledydd tlawd. Yr oedd trydydd aelod o'r mudiad, sef Heledd ap Gwynfor, merch y Parchedig Guto Prys ap Gwynfor, wedi bwriadu dod hefyd a chael ymweld â'i hen gynefin, ond yn anffodus fe'i rhwystrwyd gan salwch.

Llwyddodd prosiect ‘Coda Ni’ i godi £25,000, a thrwy gynllun y Gymuned Ewropeaidd sy'n talu £4 am bob punt a godir, mae'r arian hwnnw wedi chwyddo i £100,000. Codwyd yr arian drwy gasglu dillad ail law i'w gwerthu, teithiau cerdded a theithiau beiciau.

Thema'r gwasanaeth oedd ‘Byw bywyd o ddiolch’ a chafwyd cyfle i wyllo ffilm a dysgu mwy am y gwaith da y mae'r mudiad wedi'i wneud ym Murkina Faso yng ngorllewin Affrica, sy'n un o'r pump o wledydd tlotafl y byd. Yn ddiweddar, mae trais y rhyfel cartref sydd yn Niger a Mali y drws nesaf iddi wedi dod dros y ffin. Am nad oes gan boblogaeth y wlad hon ddim cyfoeth, na fawr ddim bwyd maethlon oherwydd eu bod yn byw ar gyrion anialwch y Sahara, mae magu teulu a thyfu bwyd yn her enfawr. Mae'r tywydd mor boeth a'r sychder yn difa'r cnydau. Pan ddaw'r tymor gwlyb, mae'r glaw mawr yn achosi llifogydd sydd wedyn yn ysgubo llawer o'r cnwd i ffwrdd.

Ar y ffilm fe welwyd Ffred, Fioled a Heledd yn ymweld â mân bentrefi gwledig mewn tir anial, ac yn gweld pa mor werthfawr yw'r geifr a brynwyd ag arian Cymorth Cristnogol i'r bobl. Amcangyfrifir fod 140 o bobl yn elwa ar y geifr. Bu aelodau ‘Coda Ni’ yn ymweld ag ysgol ym mhentref Sauoga er mwyn gweld y prosiect sydd ar droed i hyfforddi'r plant i dyfu llysiau. Mae'n anodd tyfu dim bwyd maethlon yn y tir anial, a'r prif gnwd yw reis a grawn gwael. Mae llawer o blant yn gorfod byw ar bolennaid o rawn bob dydd. Ond trwy gyfrwng cymorth yr arian a gasglwyd yng Nghymru y gobaith yw dysgu'r plant sut i blannu llysiau a'u dyfrio trwy godi dŵr o'r ffynnon. Trwy wneud hynny bydd y plant yn gallu edrych ar ôl eu cnwd o lysiau a'i gynaeafu a chael yn sgil hynny fwyd mwy maethlon.

Dysgwyd hefyd am yr ymdrechion i gyflwyno pecynnau bwyd maethlon i garcharorion yn nhref Kaya, lle mae carchar a adeiladwyd i ddal 120 o garcharorion bellach yn cynnwys dros 300, a llawer o'r rheini yn bobl a garcharwyd am gyflawni troseddau digon diniwed. Am nad yw'r carcharorion yn derbyn bwyd maethlon, mae llawer ohonynt yn dioddef o sgyrff, a gwelwyd ar y ffilm bobl yn paratoi pecynnau bwyd a oedd yn cynnwys fitaminau llesol. Mae gwybod am fywyd caled pobl Burkina Faso yn gwneud i ni yma yng Nghymru gyfrif ein bendithion.

Bwriad ‘Coda Ni’ yw gwireddu'r adnod sy'n dweud ‘Byddwch weithredwyr y Gair’. Trwy ymweliad Ffred Ffrancis a Fioled Jones, gwelwyd peth o'r gwaith da sy'n cael ei wneud gan bobl sy'n barod i weithredu yn lle siarad yn unig. Gellir cael mwy o wybodaeth am y mudiad ar facebook: facebook.com/codani.

Gweithredu dros yr hinsawdd yn Eglwys-fach

Yn ystod cyfarfod Gweithredu Dros Yr Hinsawdd yn Eglwys-fach, edrychodd preswylwyr Biosffer Dyfi ar arddangosfa o fapiau, cyn mynd ati i sgwennu datganiadau personol am eu pryderon am newid hinsawdd a'i effeithiau ar y Borth ac ar hyd y foryd. Roedd y rhain yn cynnwys ofnau pobl ynghylch effaith ar y ffyrdd a'r rheilffordd, llifogydd a thirlithriadau, a cholli tir amaethyddol ar y gwastatir. Cyn y cyfarfod cafwyd taith gerdded ar y Foel i asesu pa mor fregus yw'r cwm yn wyneb newid hinsawdd. Cafwyd cwis er mwyn sbarduno trafodaeth, a sioe sleidiau o brydferthwch ac amrywiaeth yr ardal. Hefyd trafodwyd potensial y Biosffer i ffynnu trwy swyddi a phrosiectau sy'n defnyddio'r cyfoeth o arbenigedd ynghylch ynni adnewyddadwy, cadwraeth, ac adnoddau naturiol yr ardal.

Cytunwyd bod sicrhau Prydain ddigarbon yn nod y gallwn ei gyrraedd ac mai rŵan yw'r amser i weithredu. Bydd llythyr arbennig gan Sefydliad y Merched yn cael ei gyflwyno i Mark Williams AS gyda datganiadau a pharatoadau. Gobeithiwn yn wir y caiff safbwyntiau'r Grŵp Hinsawdd eu lleisio yn San Steffan.

Victoria Bamford

Cymdeithas y Chwirydd Rehoboth


Croesawyd Dr D. Huw Owen, Aberystwyth, i'r cyfarfod ar brynhawn Mawrth, 11 Hydref. Ef yw awdur y gyfrol *Capeli Cymru* a chrynhoad o'r gyfrol honno a gafwyd ganddo yn ystod y prynhawn. Cyfaddefodd fod dewis capeli i'w cynnwys yn y gyfrol wedi bod yn dasg anodd, ond roedd Capel Bethel, Tal-y-bont, wedi ei gynnwys ynddi. Roedd ganddo nifer fawr o luniau o'r gwahanol gapeli i'w dangos a chafwyd hanesion diddorol am lawer ohonynt. Diolchwyd i Dr Owen am brynhawn diddorol iawn, ac yna mwynhawyd y te a chacenau a baratowyd gan Ann Humphreys a Gwen Williams.

Merched y Wawr Tal-y bont a'r Cylch

Meddwlgarwch

Daeth Siwan Morus o'r Borth i ymuno â ni ar nos Fercher 19 Hydref. Mae'n ferch dalentog, yn canu, yn chwarae'r gitâr ac yn athrawes Meddwlgarwch (*Mindfulness*) ac yn rhedeg cyrsiau arno i grwpiau ac unigolion. Mae'r cwrs yn gallu bod o gymorth i'r sawl sy'n dioddef o orbryder, tensiwn, straen, iselder ysbryd ac o boen. Daw nifer i'w gweld hi ar ôl cael eu cyfeirio ati gan y Gwasanaeth Iechyd. O Fwdaeth y daw meddwlgarwch, eglurodd Siwan, ac ers y 1970au mae wedi cynyddu mewn poblogrwydd. Talu sylw i'r funud hon neu'r eiliad hon yw sail meddwlgarwch, ond heb fod yn feirniadol. Caniatâ inni ganolbwyntio'n glir ar y presennol; mae'n ein harafu ac yn ein cynorthwyo i dalu sylw i'n meddyliau.

Er mwyn ein helpu i ddeall y broses yn well ac i gael ymdeimlad o feddwlgarwch, roedd ganddi nifer o ymarferion. ‘Meddwlgarwch rhesinen’ oedd enw un o'r ymarferion a oedd yn cynnwys dal, cyffwrdd, sylwi, arogl, blasu a llyncu rhesinen tra oedd hi'n ein tywys drwy bob cam. Daethom i fod yn ymwybodol o'n teimladau mewnol a'n teimladau corfforol. Ymarfer arall oedd ‘meddwlgarwch anadlu’ a fu'n gymorth inni gysylltu gyda'r foment. Roedd y modd yr oedd Siwan yn egluro yn gynnes, yn dawel, yn amyneddgar ac yn llawn cydymdeimlad yn golygu ein bod yn fwy parod i ofyn cwestiynau ar y diwedd ac i drafod rhai o'r materion. I orffen, pwysleisiodd y pwysigrwydd o fod yn ffeind wrthym ni'n hunain ac o'r herwydd byddwn yn gallu gofalu am eraill yn fwy effeithiol.



Parti Calan Gaeaf

Brynhawn dydd Sul, 30 Hydref, cynhaliwyd parti Calan Gaeaf ar gyfer plant yr ardal yn Neuadd Goffa Tal-y-bont.

Llanwyd y Neuadd gyda gwrachod, ysbrydion, sgerbydau a phob math o ddrychiolaethau eithriadol o fywiog. Mwynhawyd bwyd, disgo a gêmiau traddodiadol.

Dyma enillwyr y cystadlaethau:

Gwisg Ffansi: Dosbarth Derbyn, Meithrin a Iau

Esme Drakely, Harley Williams

Gwisg Ffansi: Blwyddyn 1 a 2

Emma Evans, Benji Ellis Evans

Gwisg Ffansi: Blwyddyn 3 a 4

Glain Jones, Lewis Foulkes

Gwisg Ffansi: Blwyddyn 5 a 6

Phoebe Hinks, Tomos Jac

Uwchradd

Libby Foulkes

Pwmpen Orau

Esme Drakely

Codwyd swm anrhydeddus at Gylch Meithrin Tal-y-bont (sef trefnwyr y parti), ac mae'r Cylch yn ddiolchgar dros ben am haelioni'r holl unigolion a chwmnïau a gyfrannodd y gwobrau.

Cyngor Cymuned Ceulanamaesmawr

Dyma adroddiad ar y prif faterion a drafodwyd yng nghyfarfod mis Hydref.

1. Cynllun Mabwysiadu Llwybrau

Rhoddodd Osian Jones, Swyddog Mynediad Cymunedol Cyngor Sir Ceredigion, gyflwyniad ar y Cynllun Mabwysiadu Llwybrau. Mae'r Cyngor Sir yn recriwtio gwirfoddolwyr i 'fabwysiadu' llwybrau cyhoeddus yn eu hardal i arolygu llwybrau a gwneud gwaith cynnal a chadw ysgafn. Byddai'r gwaith yn cynnwys cerdded y llwybrau gan recordio unrhyw faterion (megis giatiau sydd wedi torri), a gwneud mân waith cynnal a chadw (megis torri llystyfiant neu iro giatiau). Caiff gwirfoddolwyr hyfforddiant llawn yn ogystal ag unrhyw offer priodol i gyflawni'r gwaith cynnal a chadw. Nid oes disgwyl i wirfoddolwyr gymryd cyfrifoldeb llawn dros y llwybrau – y Cyngor Sir fyddai'n gyfrifol amdanynt yn gyfreithiol. Os oes diddordeb gennych mewn mabwysiadu llwybr lleol dylech gysylltu ag Osian Jones: 01545 574145 | osian.jones@ceredigion.gov.uk. Mae Osian yn hapus iawn i ateb unrhyw gwestiynau am y cynllun.

2. Tipio Anghyfreithlon

Adroddwyd bod sbwriel wedi cael ei ddadlwytho'n anghyfreithlon ar y darn o'r hen ffordd gyferbyn â'r fynedfa i'r Fagwyr ar gyrion Tal-y-bont. Tebyg fod llwyth fan neu lori fechan yno. Cytunwyd i dynnu sylw'r Cyngor Sir a'r Heddlu at y mater.

3. Gohebiaeth: Age Ceredigion – Cyfarfod Cyffredinol Blynnyddol 2016

Derbyniwyd hysbys fod cyfarfod cyffredinol blynnyddol Age Ceredigion yn cael ei gynnal ar ddydd Iau, 17 Tachwedd, 14:00, yn y Llyfrgell Genedlaethol. Siaradwr gwadd yr achlysur fydd Garry Owen, cyflwynydd Taro'r Post BBC Radio Cymru. At hyn, mi fydd taith dywys am ddim o'r Llyfrgell Genedlaethol, yn ogystal â the a chacenau. Estynnir croeso cynnes i bawb. Am fanylion pellach, cysylltwch ag Age Ceredigion: 01970 615151.

4. Gohebiaeth: Cyngor Sir Ceredigion: Ymgynghoriad Cynllun Strategol y Gymraeg mewn Addysg 2017-2020

Derbyniwyd hysbys fod y Cyngor Sir yn cynnal ymgynghoriad ynghylch Cynllun Strategol y Gymraeg mewn Addysg 2017-2020 rhwng 19 Hydref a 13 Rhagfyr 2016. Mae'n ofynnol i bob Cyngor yng Nghymru gyhoeddi Cynllun Strategol y Gymraeg mewn Addysg (CSGA) ar gyfer 2017-2020, ac mae cynnwys y ddogfen hon yn cael ei osod gan Lywodraeth Cymru. Os oes diddordeb gyda chi mewn darllen y cynllun neu ymateb, dylid mynd at wefan y Cyngor Sir: <http://www.ceredigion.gov.uk/Cymraeg/Eich-Cyngor/Ymgynghoriadau/Pages/Cynllun-Strategol-y-Gymraeg-mewn-Addysg-2017-2020.aspx>

5. Gohebiaeth: Cyflwyniad Gwasanaeth Ambiwylans Cymru

Derbyniwyd hysbys fod Gwasanaeth Ambiwylans Cymru â diddordeb mawr mewn cwrdd â phobl hŷn, yn enwedig y rheini sydd yn dioddef gydag amryw o anawsterau oherwydd colli'r synhwyrau a dementia, er enghraifft. Os ydych yn aelod o grŵp, neu yn gweithio o fewn grŵp a fyddai'n croesawu'r cyfle i dderbyn cyflwyniad gan y Gwasanaeth Ambiwylans, cysylltwch ag Alison Johnstone: alison.johnstone@wales.nhs.uk

6. Gohebiaeth: Grŵp Cydweithredol Gofal Iechyd y Canolbarth – Cyfarfodydd Cymunedol

Derbyniwyd hysbys fod cyfarfod ymgysylltu â'r gymuned – Sgwrs Iach – yn cael ei gynnal yng Nghanolfan y Morlan, dydd Gwener 11 Tachwedd, 14:00 – 16:30 & 18:00 – 20:30. Bydd cyfle i grŵd â'r Tîm Grŵp Cydweithredol ac arweinwyr GIG (NHS) lleol ar gyfer trafodaeth anffurfiol ynglŷn â: Gwasanaeth Iechyd Meddwl yn yr ardal; dyfodol Gwasanaethau Mewnol Bronglais; Gofal Sylfaenol a Gwasanaethau Cymunedol yn yr ardal; sut mae iechyd a lles yn effeithio ar bob un ohonom mewn bywyd bob dydd.

Ciwb Ffermwyr Ifanc Tal-y-bont a'r Cylch

**CYNGERDD
DIGION
EISTEDDFOD
CFFI
CEREDIGION**

NOS FAWRTH
15FED O DACHWEDD
AM 7:30
YN NEUADD GOFFA
TAL-Y-BONT

CROESO I BAWB

Cyngor Cymuned Ceulanamaesmawr

Cymorthdaliadau 2016/17

Gwahoddir ceisiadau am gymorth ariannol oddi wrth gymdeithasau a mudiadau gwirfoddol lleol. Dylid anfon

ceisiadau ynghyd â chopi o'r fantolen ddiweddaraf at:

Cyngor Cymuned
Ceulanamaesmawr
d/o Lowri Jones, Otters Holt,
Blaeneinion, Cwm Einion,
Ffwrnais, Machynlleth,
Ceredigion
SY20 8TD
cyngorcam@gmail.com

Dyddiad Cau:

Dydd Iau 5 Ionawr, 2017

COLOFN ELIN JONES AC

Fe fu newyddion mawr yn y Cynulliad y mis yma, sydd ag effaith sylweddol ar fywydau pobl yma yng Ngheredigion, ac ar nifer o'r sefydliadau, a chymunedau cysylltiedig trwy'r sir.

Trawodd Plaid Cymru fargen yn y Cynulliad Cenedlaethol gyda Llywodraeth Cymru sydd wedi clustnodi blaenoriaethau gwariant o £279 miliwn dros y flwyddyn nesaf. Dyma'r gyllideb fwyaf i gael ei chytuno arni gan unrhyw wrthblaid yn hanes y Cynulliad. Mae hi'n gweld Plaid Cymru'n diogelu nifer o'n hymrwymiaidau manifesto ac yn cael effaith go iawn ar nifer o sefydliadau Ceredigion a phobl ein hetholaeth.

Mae ein colegau Addysg Uwch a Phellach yn hollbwysig i'n heconomi ac i addysg pobl yng Ngheredigion. Rydym wedi llwyddo i sicrhau £30m o gyllid ychwanegol i'r sector trwy Gymru, a fydd yn weledol iawn yn ein sir gyda'n dwy dref Prifysgol a Choleg Ceredigion. Yn ogystal â hyn, rydym wedi sicrhau ymrwymiad i adeiladu ar y bartneriaeth rhwng Prifysgol Aberystwyth a'r Coleg Milfeddygaeth Brenhinol er mwyn gosod sylfeini ar gyfer Ysgol Feddygol, a chreu canolfan arbenigedd milfeddygol i Geredigion.

Mae'r Celfyddydau yn hollbwysig i Geredigion, ac mewn cyfnod anodd i gyllid ein sefydliadau, rydym ni wedi llwyddo i gael £3m ychwanegol i'r sector. Mae hyn yn golygu y bydd cynnydd o 3.5% i gyllidebau'r Llyfrgell Genedlaethol, y Cyngor Llyfrau Cymraeg ac i Gyngor y Celfyddydau, sy'n cyllido cymaint o sefydliadau celfyddydol ac artistiaid trwy gydol Ceredigion.

Bydd ymgyrchwyr dros ail agor y rheilffordd o Aberystwyth i Gaerfyrddin yn falch iawn i glywed ein bod wedi sicrhau ymrwymiad o £300,000 ar gyfer astudiaeth ddichonoldeb lawn i'w hailagor. Fe fydd hwn yn gweld canolbarth a gorllewin Cymru wedi'u hintegreiddio'n llawn i system drafndiaeth Cymru.

Rydym hefyd wedi llwyddo i sicrhau £15m o fuddsoddiad i wella amseroedd diagnosis, ac i driniaeth canser a chyflyrau prin. Mae yna hefyd ymrwymiad o £20m ychwanegol i wella gwasanaethau iechyd meddwl, sydd wedi bod ar ei hôl hi o ran cyllid am amser hir.

Mae yna hefyd newyddion da iawn i'r Gymraeg, gyda £5m ychwanegol wedi'i glustnodi ar gyfer Cymraeg i Oedolion ac i Asiantaeth Genedlaethol yr Iaith. Mae hyn yn gam pwysig iawn mewn ceisio sicrhau dyfodol i'r iaith.

Drwyddi draw, mae'r gyllideb hon yn un flaengar, ac yn dangos cydweithio aeddfed gyda Llywodraeth ar ei fwyaf effeithiol erioed mewn hanes y Cynulliad. Edrychaf mlaen at weld y newid a'r effaith ar hyd a lled Ceredigion.

Mi fues i hefyd yn cymryd rhan mewn dadl yn y Cynulliad y mis hwn dros sefydlu Senedd i'r Ifanc. Mae hi'n hollbwysig ein bod ni yn sicrhau bod pobl ifanc yn cymryd rhan yn ein prosesau democrataidd. Dydw i ddim yn derbyn nad oes gan bobl ifanc ddiddordeb mewn gwleidyddiaeth. Bob tro rydw i'n cwrdd â phobl ifanc trwy Geredigion, mae nhw'n dweud wrtha i sut mae gweithredoedd y Cynulliad yn effeithio arny'n nhw. Fe fydd sefydlu Senedd i'r ifanc yn sicrhau platform go iawn iddynt.



Noson yng Nghwmni'r Welsh Whisperer!



Y Welsh Whisperer yn perfformio

Y perfformiwr gwreiddiol ei act o'r enw y Welsh Whisperer a'i gyfaill Hywel Pitts oedd yn diddanu yn Sesiwn Nos Wener y mis diwethaf. Mae'r 'sibrydwr' yn gymeriad a hanner sy'n gallu llunio caneuon canu gwlad doniol a fraeth, rai ohonynt yn barodiau ar ganeuon cyfarwydd. Dychan doniol digon hoffus yw cynnwys llawer o'i ganeuon, ac mae'r straeon sydd ganddo rhwng pob cân yn werth gwrandao arnynt. Mae ganddo hiwmor cefn gwlad hynod atyniadol.

Er nad oedd dychan crafog a geiriau rhai o ganeuon coch Hywel Pitts at ddant pawb, fedr neb wadu nad yw'n gerddor medrus. Mae ganddo yntau ei arddull unigryw ei hun, a'r hyn oedd amlycaf ynglŷn â'i ganeuon, ar wahân i'w themâu agos at yr asgwrn, oedd clyfrwch y geiriau. Roedd modd synhwyro dwy farn bendant ymhlith y gynulleidfa a ddaeth i'r Llew Du i wrando ar y ddau ohonyn nhw: roedd rhai yn eu dyblau'n chwerthin ac eraill yn ei chael hi'n anodd cuddio'r anghymeradwyaeth ar eu hwynebau. Efallai fod hon y math o noson sy'n profi'r wireb nad yw pawb yn gwirioni'r un fath. I'r rheini a oedd yno, ac a gynhesodd at hiwmor a chymeriad y Welsh Whisperer o'r cychwyn cyntaf, roedd hon yn noson gofiadwy iawn.

Y canwr talentog Gwilym Bowen Rhys a fydd yn diddanu yn Sesiwn Nos Wener ar 18 Tachwedd.



Hywel Pitts a'i gitâr drydan

K Hughes

Plymio a Gwresogi
Gosod a Theillio Ystafelloedd Ymolchi
Gwasanaeth Boeler Olew

01970 832129
07761 917235

Rhian

trin gwallt gartref

25 mlynedd o brofiad
gwasanaeth cyfeillgar, dibynadwy

ffôn 832 612
07835 525 553

BWYD DA ... CWMNI DA ...

yBlac
TALYBONT

BWYTY A BAR
CINO 12.00 - 2.30 SWPER NOS 6.00 - 9.00
CINO SUL 12.00 - 3.00

AM FWY O FANYLON, BWYDLENNI A CHYNGON
EWCH I'N GWEFAN - yblac.co.uk

Gwelwch chi'n fuan... Cofion Siân, Catrin a'r tîm

01970 832 555 croeso@yblac.co.uk

Ysgol Tal-y-bont

Rydym yn falch iawn o groesawu Mrs Vicky Joseph yn ôl i'r ysgol ar ôl cyfnod mamolaeth.



Diwrnod prysur

Roedd dydd Gwener Hydref 14eg yn ddiwrnod prysur iawn. Cynhaliwyd bore coffi i godi arian ar gyfer elusen cymorth MacMillan yn y Neuadd Goffa. Trefnwyd y cyfan gan rai o ferched B1 6 gyda chymorth gweddill y dosbarth, rhieni a staff. Casglwyd £387.63 ac rydym yn falch iawn o'u brwdfrydedd a'u dymuniad i geisio helpu eraill. Wedi cinio cynnar aeth Blynnyddoedd 3, 4, 5 a 6 i gymryd rhan yng Nghystaddeuaeth Traws Gwlad y Cylch yng Nghaeau Ysgol Penweddig ac aeth Blynnyddoedd 1 a 2 i gymryd rhan mewn Gŵyl Chwaraeon Aml-sgiliau ar gampws y Brifysgol. Er bod y Dosbarth Derbyn yn dal i fod yn yr ysgol, fe gawson nhw brynhawn bendigedig yn datblygu eu sgiliau chwaraeon gyda Steffan Price o fudiad yr Urdd.



Gwasanaeth Diolchgarwch

Ar yr 20fed o Hydref cynhaliwyd ein Gwasanaeth Diolchgarwch yng Nghapel Bethel. Roedd hi'n braf gweld pob un plentyn yn cymryd rhan ac rydym yn ddiolchgar iawn i Mrs Falyri Jenkins am ei gwaith hyfforddi a chyfeilio ar y diwrnod. Yn hytrach na chasgliad ariannol eleni, gofynnwyd am gyfraniadau o fwyd i'w rhoi yng nghasgliad Banc Bwyd Aberystwyth. Cafwyd cyfraniadau sylweddol – dau lound twba enfawr a thrwm!

Morlan
Canolfan ffydd a diwylliant
Centre for faith and culture

PLYGAIN MORLAN
7.30, nos Fercher, 21 Rhagfyr
Dewch i ddathlu'r Nadolig yn ein Plygain draddodiadol. Croeso cynnes i bawb.

NOSON GWIS MORLAN
7.30, nos Fercher, 11 Ionawr 2017
Cwis blynnyddol ble mae timau o gapeli ac eglwysi lleol yn cystadlu am Darian Her Morlan. Beth am ffurfio tim? Ac os nad ydych chi mewn tim, dewch draw i gefnogi!

Manylion llawn ar wefan Morlan:
www.morlan.org.uk

Morlan, Morfa Mawr, Aberystwyth SY23 2HH
01970-617996; morlan.aber@gmail.com; @CanolfanMorlan

Cyngor Cymuned
Ceulanamaesmawr

*Cynnau Goleuadau
Nadolig & Charolau*

Lluniaeth Ysgafn

Dydd Iau 1 Rhagfyr
16:15
Neuadd Goffa Tal-y-bont

Croeso i Bawb



Gweithdai drama

Mae disgyblion Cyfnod Allweddol 2 wedi bod yn ffodus iawn i gymryd rhan mewn gweithdai drama gyda Mari Rhian Owen o Gwmni Arad Goch. Maent wedi bod yn datblygu eu sgiliau gwrando, actio a siarad Cymraeg a chreu siapiau diddorol a lluniau llonydd yn seiliedig ar ein thema hanner tymor – Plant y Chwyldro – Oes Fictoria.



Cyngor Ysgol

Etholwyd ein Cyngor Ysgol newydd gyda dau aelod o bob blwyddyn ysgol o Flwyddyn 2 a 6 yn cynrychioli'u cyddisgyblion. (Nid yw Ela o Flwyddyn 2 yn y llun). Etholwyd Chloe a Thérèse o Flwyddyn 6 fel Llysgenhadon Comisiynydd Plant Cymru yr ysgol a Catrin a Tomos Jac fel Llysgenhadon Efydd yr ysgol. Yn bennaf, bydd Chloe a Thérèse yn canolbwyntio ar rannu gwybodaeth am hawliau ac annog y plant i gydweithio i wella'r ysgol tra bydd Catrin a Tomos Jac yn trefnu gweithgareddau addysg gorfforol i'r disgyblion yn ystod amser cinio.



Ffoto Aber

Llongyfarchiadau mawr i Miri o Flwyddyn 5 am ennill canmoliaeth yng nghystaddeuaeth Ffoto Aber i blant ysgol. Dyma hi gyda'i llun sy'n cael ei arddangos yng Nghanolfan Arad Goch.



Thérèse a Chloe– Llysgenhadon Comisiynydd Plant Cymru yr ysgol



Catrin a Tomos Jac – Llysgenhadon Efydd yr ysgol

Cymdeithas Defaid Mynydd Ceredigion



Daeth 13 o aelodau'r gymdeithas at ei gilydd eleni eto i anfon 50 o ŵyn hyrddod i'r arbrawf fel arfer.

Anfonwyd yr ŵyn am y tro cyntaf i fferm Pencefen, Mwnt, Aberteifi i ofal Arthur Morgan, Pwllglas gynt, a'r teulu am y gaeaf. Cafodd y bugeiliaid i gyd y cyfle i farnu yr oen hwrdd mwyaf addawol cyn mynd. Daeth dau oen hwrdd yn gyfartal fuddugol, sef oen hwrdd Dafydd Jenkins, Tanrallt ac oen hwrdd Dei Nutting, Tŷ Hen Henllys. Noddwyd yr abrawf gan gwmni Rogers & Taylor a chwmni Downland Agri. Hoffai'r gymdeithas ddiolch i'r ddau gwmni am eu cefnogaeth unwaith eto eleni.

Llwybr ceffylau

Gwelir nifer o geffylau yn aml yn teithio ar hyd y ffordd drwy Bentre-bach. Yn wreiddiol, yn Rhoslan roedd y stablau, ond ers i'r perchnogion newydd ddod yno does dim ceffylau i'w gweld yn eu caeau. Aeth nifer o'r marchogion â'u ceffylau oddi yno i Gerrig Caranau Isaf, felly Martin James a Gwydion sy'n cadw llygad arnynt nawr ac yn datblygu safle arbennig i wneud *dressage* ar eu cyfer. Yn wahanol i Rhoslan, mae Cerrig Caranau Isaf ar lwybr cylchdaith i geffylau sy'n arwain yn y pen draw drwy Allt-y-grib heibio i Dŷ Hen i Ddôl-y-bont, Brynlllys a Phant-y-dwn. Ond i gyrraedd y goedwig rhaid croesi tir Bryn Gryffty yn llythrennol drwy ganol yr ardd! Er eu bod yn hapus i weld cerddwyr ac ambell feic yn mynd drwodd, nid oedd y perchnogion newydd, Sarah a Barry, yn rhy hoff o weld y tir yn cael ei gorddi gan bedolau ceffylau. Daethpwyd i gytundeb gyda'r Cyngor Sir i ddargyfeirio'r llwybr. Golyga hyn fod y llwybr yn cymryd taith ychwanegol drwy dir Alun a Janet, Llwyn-glas. Gyda'u caredigrwydd a'u caniatâd hwy, mae'r llwybr (er nad wedi ei orffen yn llwyr) nawr ar agor ac yn osgoi Bryn Gryffty.

Ym mis Medi gwelwyd sawl marchog ac un aelod o'r Cyngor Sir yn ychwanegu teclyn at bob giât rhwng Cerrig Caranau Isaf heibio i Gae'r Gog ac allan i'r ffordd ger Llwyn Awel. Nawr mae'r marchogion yn gallu agor a chau pob giât gan deithio'n ddidrafferth heb ddod oddi ar gefn y ceffyl unwaith.



Y giât geffylau newydd a'r bachyn hwylus

Gwasanaeth Diolchgarwch Bethel Tal-y-bont



Cynhaliwyd gwasanaeth diolchgarwch Bethel Tal-y-bont ar yr ail Sul ym mis Hydref yng nghwmni plant yr Ysgol Sul. Bu'n rhaid i Fal Jenkins baratoi'r gwasanaeth ar fyr rybudd am iddi glywed y diwrnod cynt nad oedd y gweinidog yn gallu cymryd y gwasanaeth fel yr oedd wedi bwriadu gwneud. Yn wir, fe gafwyd gwasanaeth teilwng iawn gydag eitemau byrion amrywiol. Pwysleisiwyd fod angen diolch am bob math o fendithion gan gynnwys y talentau sydd gan bob unigolyn, boed fawr neu fach.

Yn ystod y gwasanaeth trodd dieithryn i mewn i'r capel, sef gŵr bonheddig o Wlad yr Haf a oedd ar ei ffordd i ogledd Cymru ar gefn motobeic. Roedd y dyn yn Grynwr, ac er na chafwyd ei enw yr oedd yn barod iawn ei sgwrs ag aelodau'r capel, a dywedodd ei fod wedi cael bendith yn y gwasanaeth, er na ddeallai yr un gair. Dywedodd wrth un o'r blaenoriaid nad oedd erioed wedi bod mewn gwasanaeth Cymraeg o'r blaen. Synnai hefyd weld cymaint o blant yn y gwasanaeth. Mae pawb o aelodau'r capel yn gwybod fod hynny'n ganlyniad i ymroddiad cyson Fal Jenkins ac athrawon ffyddlon yr Ysgol Sul.

Cyhoeddodd Fal Jenkins y bydd yn rhoi'r gorau i arwain yr Ysgol Sul ar ôl y Nadolig eleni. Mewn nodyn i'w chyd-athrawon, dywedodd: 'Mae ganddo ni gymaint o dalent ymysg yr arweinyddion fel bod yr Ysgol Sul yn gallu symud ymlaen yn hyderus i'r dyfodol.'

STORFA CANOLBARTH CYMRU

MID WALES STORAGE

Storfa Cartref a Busnes

Ystafelloedd storio ar gyfer eich anghenion
Monitro Diogelwch 24 awr—Wedi ei wresogi

Bocsos a bubblewrap ar lein
www.boxshopsupplies.co.uk

Ffôn: 01654 703592
www.midwalesstorage.co.uk

Heol Y Doll, Machynlleth, SY20 8BQ




INVESTORS | BUILDING ON PEOPLE | MEWN POBL

CANOLFAN
M.O.T.

HUW LEWIS

M.O.T. CENTRE

**Teiars
Aliniad Olwyn
Ecsôsts
Batris
Brêcs
Hongiad
Bar tynnu
Gwasanaeth
MOT**

HUWLEWISTYRES.COM

TEIARS

HUW LEWIS


TYRES

Glanrafon **Rhodfa'r Parc**

Am y pris gorau a dewis eang o deiars cysylltwch â ni
drwy'r wefan neu galwch heibio am gyngor.
Am docyn disgownt ar gyfer alinio eich car ewch i'n gwefan
ALIGNMYCAR.CO.UK
Archebwch eich MOT nesaf ar ein gwefan.

ABERYSTWYTH 01970 611166 MACHYNLLETH 01654 700000
LLANBED 01570 422221

Teyrnged i John Leeding



Llun o John Leeding ar y *Camino de Santiago* y llynedd. Mae'n sefyll y drws nesa i *Cruz de Ferro*, wedi gadael carreg fach o Daliesin yno gyda gweddi, yn unol â'r traddodiad.

'Hawddamor': dyna gyfarchiad siriol ac annisgwyl John ar ei beiriant ateb – hen ffordd o ddweud 'helô' o oes y Mabinogi – ac mae'n rhyfedd meddwl bod y llais addfwyn hwnnw a'i holl asbri wedi distewi ac na fydd y cyfarchiad hwnnw i'w glywed eto wrth godi'r ffôn ar Glannant, Taliesin.

Diymhongar a dibynadwy: dyna'r ddau air cynta sy'n dod i'r meddwl wrth geisio cloriannu cymeriad ein hannwyl gymydog John Leeding a fu farw mor sydyn yn ddiweddar – dyn gwylaidd iawn a fyddai'n anghyfforddus o gael sylw fel hyn ar dudalennau *Papur Pawb*. Dyn a chanddo hiwmor tawel a gwên fach ddireidus bob amser.

Braw mawr i bawb ym mro *Papur Pawb* ac yn Nhre Taliesin yn arbennig oedd clywed am ei salwch a marwolaeth ddysymwrth ac rydym yn cydymdeimlo i'r eitha â Mai, Rhun a gweddill y teulu yn eu galar. Roedd Mai a John yn bâr hynaws a hoffus iawn gyda'i gilydd a bydd yn anodd meddwl am Mai heb John wrth ei hochr. Cymwynaswr heb ei ail oedd John a gall llawer o ddarlennwyr *Papur Pawb* dystio i'w barodrwydd i estyn cymorth mewn argyfwng neu roi help llaw o ddydd i ddydd a hynny'n dawel a digynnwrf bob amser.

Dyn dawnus a deallus oedd John a chanddo ddiddordebau eang. Ei brif ddileit oedd mynydda a cherdded a dyna a'i denodd o Swydd Efrog i Gymru'n wreiddiol. Roedd wedi cerdded ym mhedwar ban byd a hyfryd o beth oedd cael y cyfle i gydgerdded â'i fab Rhun yn Sbaen y llynedd.

Nid y lleiaf o gyflawniadau John, wrth gwrs, oedd meistrolï'r Gymraeg a'i mabwysiadu a'i harddel fel ei iaith gyntaf i bob perwyl. Tipyn o syndod i rai mae'n siŵr fyddai clywed ei acen frodorol – acen Swydd Efrog – pan fyddai'n dyfynnu rhywbeth yn y Saesneg yng nghanol sgwrs Gymraeg. I ni yr ychydig Gymry sy'n weddill yn Nhre Taliesin, mae colli un o ffyddloniaid achos yr iaith yn ergyd drom.

Yn ogystal â bod yn gyfarchiad, mae'r ymadrodd hynafol ar y peiriant ateb hefyd yn gallu golygu ffarwél. Felly, oddi wrth bob un ohonom, 'Hawddamor John' a diolch yn wir am gael dy adnabod ac am dy gymwynasau lu.

MD

Y Gair Olaf



Symudon ni fel teulu i Dal-y-bont ym Mehefin 2015 ar ôl treulio ugain mlynedd yn byw yn Llanilar. Cefais fy magu yn Nhrawsgoed felly roedd symud i ardal gwbl wahanol yn dipyn o sioc i'r system. Ond profodd y croeso a gawsom ni fel teulu ers symud i ardal *Papur Pawb* i'n penderfyniad i symud bod yn un cywir.

Mae'n hollbwysig fod y syniad o gymuned i'w gael yn ein pentrefi ac mae byw yma wedi dangos i mi fod hyn yn wir am yr ardal hon. Rhan bwysig o'r gymuned yw'r plant bach, felly pan gefais gynnig i redeg tîm pêl-droed ieuenctid Tal-y-bont a'r cylch, roeddwn wrth fy modd.

Mae'n hanfodol i blant yr ardal gael y cyfle i chwarae mewn unrhyw faes chwaraeon yn gyson am sawl rheswm. Mae cynnal iechyd a ffitrwydd yn un elfen ond yn bwysicach na hynny yw cael y cyfle i chwarae mewn tîm gyda ffrindiau neu blant eraill er mwyn rhoi ysbryd, hyder a theimlad o berthyn.

Felly pan ofynnwyd i mi gan aelod o glwb ieuenctid Tal-y-bont i gynorthwyo, gwelais ef fel cyfle i roi rhywbeth nôl i'r gymuned sydd wedi rhoi cymaint o groeso i ni fel teulu.

Mark Evans

Pwsi Meri Mew

Mae cath ym Maes-y-felin
Sy'n hoffi crwydro'r fro,
Troï'n slei trwy'r gerddi lleol,
Pob rhandir yn ei thro,
Gan adael parcel ar ei hôl
O stwff sy'n dyfod o'i phen-ôl.

Mae'r rhychau tato'n drewi
Pob gwanwyn a phob haf.
Wrth i mi briddo'r llysiau
Gwêl hon olygfa braf,
A lle i gaca yn y man,
Ac anrheg dyddiol ddau i'm rhan.

Ac os yw gwasgar hadau
Yn swnio'n job reit hawdd,
Bydd pws yn gweld ei chyfle
Gan sleifio dros y clawdd
Fin nos, i gladdu llwyth neu ddau,
Yn gwmws lle rwy'n mynd i hau!

Yn aml mae malwoden
Yn tarfu ar yr ardd,
Tro arall daw llygoden
I fwyta'r blodau hardd,
Ond olion rhyw gathoden hy'
Sy'n codi'r felan arnaf i.

'Sdim pleser hwyrddydd hydref
Ymlacio mas y bac,
Cans stêm a gwynt rhyw dwardyn,
A wna im deimlo'n grac,
A thasg nosweithiol gyda'm rhaw
Yw ymdrybaeddu yn y baw.



Gosodais ddrain ar wasgar
A dail celynnen werdd,
Ond dal i ddod mae'r cythrel,
A phwrpas hyn o gerdd,
Yw holi pam nad yw'r hen pws
Yn domi gartref heb ddim ffws.

I chwi drigolion Cymru
Sydd heddiw'n berchen cath,
Ystyriwch eich cymdogion
Wrth gadw pla o'r fath,
A cheisiwch feddwl am y loes,
Ddilyna'ch carthffos pedair coes.

Phil Davies

Chwaraeon



Steve a Claire Clark, Garej Davmor, yn cyflwyno crysau newydd i Owain Jones a thîm Eilyddion Tal-y-bont cyn y gêm ar Gae'r Odyn Galch yn erbyn Llanilar. Mae'r Eilyddion wedi cael dechrau campus i'r tymor gan ennill pob gêm ond un. Maent ar frig ail adran Cynghair Cambrian Tyres Aberystwyth a'r Cylch, triphwynt ar y blaen i Ddolgellau sydd â gêm mewn llaw.

Canlyniad siomedig

Mae tîm cyntaf Tal-y-bont allan o Gwpan Emrys Morgan ar ôl colli o 4-1 oddi cartref yn Nhrefyclo, Powys, ar 5 Tachwedd. Serch hynny, mae'r tîm yn parhau yn yr ail safle yn adran gyntaf Cynghair Cambrian Tyres Aberystwyth a'r Cylch.



Tîm Tal-y-bont dan 16 sydd wedi'i noddio eleni gan gwmni A & D Tyres Aberystwyth. Mae'r tîm, sy'n cael ei hyfforddi gan Wyn Benjamin ac Andy Humphreys, wedi cael dechrau cymysg i'r tymor gan ennill tair gêm a cholli tair.



Huw Taylor, gôl-geidwad y tîm dan 16, yn dal y bêl yn y gêm yn erbyn Piod Bow Street. Hefyd yn y llun mae Tomos Jenkins, Charlie a Harry Turner, ac Aaron Parry.

James Memorials

Am
GOFEBAU ARBENNIG
BEDDARGRAFFIADAU
ADNEWYDDU O SAFON
ARWYDDION AR DAI A
BUSNESAU

Gofynnwch am bampffled
rhad ac am ddim

James Memorials
Vicarage Crossing,
Llande, Bow Street
Ffôn: (01970) 820 111

Iwan Jones

Gwasanaethau Pensaernïol

Cynlluniau ar gyfer adeiladau newydd,
estyniadau ac addasiadau

Gellimanwydd, Talybont,
Ceredigion SY24 5HJ
helen.iwan@btinternet.com
01970 832760

**argraffu da
am bris da**

ylolfa

holwch Paul am bris ar paul@ylolfa.com
01970 832 304 www.ylolfa.com

Ocsiwn 5 Rhagfyr – 16 Rhagfyr (cau am 9pm) 2016

Ciwb Pêl-droed leuenctid Talybont a'r Cylch

Twrci, Hanner Oen, Coeden Nadolig, Cacen Nadolig, 2/3 Hamper, a llawer mwy...

Ocsiwn i'w chynnal ar safle Facebook: **CPD leuenctid Talybont a'r Cylch**

Am ragor o wybodaeth neu os am gyfrannu cysylltwch â: Ceri Jones 07545 697 017 stiwidlo@ceri-talybont.com